------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Comisiwn y Cynulliad

Lleoliad:
**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr – Tŷ Hywel**

Dyddiad:
**Dydd Iau, 21 Mai 2015**

Amser:
**13.00**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales


I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
**Sulafa Thomas, x8669**
Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn
0300 200 6565
sulafa.thomas@Cynulliad.Cymru


## Agenda AC(4)2015(7)

### 1 Cyflwyniad

**Cyflwyniad ac ymddiheuriadau**

**Datganiadau o fuddiant**

**Cofnodion y cyfarfod blaenorol** (Tudalennau 1 – 3)

### 2 Adroddiad Caffael (Ionawr – Mawrth) (Tudalennau 4 – 8)

### 3 Adroddiad ar y Prif Bwyntiau (Ionawr – Mawrth) (Tudalennau 9 – 46)

### 4 Adroddiad ar Berfformiad Corfforaethol (Ebrill 2014 – Mawrth 2015) (Tudalennau 47 – 72)

### 5 Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Taliadau (Tudalennau 73 – 82)

### 6 Cofnodion y Pwyllgor Archwilio ar gyfer 20/04/15 (Tudalennau 83 – 89)

# 7 Unrhyw fater arall

Eitem 1.3

# Comisiwn y Cynulliad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr – Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 23 Ebrill 2015** |
| Amser: | **13.00 – 14.30** |

## Cofnodion: AC(4)2015(6)

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Comisiwn: | **Y Fonesig Rosemary Butler AC (Cadeirydd)**<br>**Peter Black AC**<br>**Sandy Mewies AC**<br>**Rhodri Glyn Thomas AC** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc**<br>**Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau'r Comisiwn**<br>**Dave Tosh, Cyfarwyddwr Adnoddau**<br>**Nicola Callow, Director of Finance**<br>**Kevin Tumelty, Pennaeth Diogelwch**<br>**Sulafa Thomas, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding AC, Y Dirprwy Lywydd**<br>**Helena Feltham, Cynghorwr Annibynnol, Cynghorwr Annibynnol** |

## 1 Cyflwyniad

1.1 Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Cafwyd ymddiheuriad gan Angela Burns AC.

1.2 Datganiadau o fuddiant

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant.

1.3 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod 5 Mawrth.

## 2 Strategaeth Cyllideb Ddrafft 2016-17

## 3 Sesiwn friffio ar yr adolygiad o'r Gwasanaeth Diogelwch

Roedd y Comisiynwyr wedi gofyn am adolygiad llawn o'r trefniadau diogelwch sydd eisoes yn bodoli. Roeddent yn ystyried y strategaeth ddiogelwch, y cynnydd gyda gwaith cyfredol, materion sy'n weddill a chynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Gofynnodd y Comisiynwyr am sicrwydd bod y trefniadau diogelwch yn briodol, yn effeithiol ac yn ymateb i anghenion sy'n newid. Pwysleisiodd y Comisiynwyr y pwysigrwydd bod ein trefniadau diogelwch yn cael eu defnyddio mewn modd sensitif, o ystyried statws ystâd y Cynulliad fel adeiladau cyhoeddus agored a chroesawgar.

Tynnodd y Comisiynwyr sylw at arwyddocâd y rôl y mae angen i unigolion ei chymryd o ran eu diogelwch eu hunain a phwysleisiwyd pa mor bwysig ydyw i holl Aelodau'r Cynulliad, eu Staff Cymorth a staff y Comisiwn weld y cyflwyniad 'Stay safe'.

## 4 Y wybodaeth ddiweddaraf ar lafar am y Pwyllgor Archwilio 20/04/15

Rhoddodd David Melding y wybodaeth diweddaraf i'r Comisiynwyr am gyfarfod diweddaraf ACARAC. Cafodd tri adroddiad archwilio eu cyflwyno:

- Adolygiad o benodi Cynghorwyr Arbenigol i Bwyllgorau. Roedd yr argymhellion yn canolbwyntio ar ddiweddaru canllawiau, dull clir i nodi ac ymdrin â gwrthdaro buddiannau a gwerthusiad clir o berfformiad;
- Gwerth am arian. Nododd yr archwiliad fod gan Gomisiwn y Cynulliad ddiwylliant Gwerth am Arian wedi'i ddatblygu'n dda, sydd wedi'i sefydlu drwy'r sefydliad. Roedd angen gwneud rhagor o waith o ran adnabod a chofnodi gweithgareddau Gwerth am Arian heb fod yn ariannol.
- Adolygiad o Drefniadau Rheoli Prosiectau Comisiwn y Cynulliad. Roedd y pwyllgor yn cefnogi'r dull gweithredu a ddefnyddir.

- Cymeradwyodd ACARAC y Siarter Archwilio Mewnol ar gyfer 2015-16 sy'n diffinio diben, awdurdod a chyfrifoldeb Archwilio Mewnol yn ffurfiol.

Roedd Gareth Watts (Pennaeth Archwilio Mewnol) wedi nodi ei fod wedi cwblhau'n llwyddiannus pob gweithgaredd a gynlluniwyd ar gyfer rhaglen Archwilio Mewnol 2014-15, a chymeradwyodd y Pwyllgor yr adroddiad blynyddol. Bydd yn cael ei gyflwyno i'r Comisiwn gan Eric Gregory, Cadeirydd y Pwyllgor, yng nghyfarfod mis Gorffennaf.

Roedd y Pwyllgor wedi adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ac wedi trafod newid cyfansoddiadol, er mwyn sicrhau'n arbennig bod popeth posibl yn cael ei wneud i ddylanwadu a bod yn barod ar gyfer newidiadau yn y dyfodol. Canmolodd y Pwyllgor ddull gweithredu'r Comisiwn ac ansawdd y gwaith. Awgrymwyd ffynonellau pellach o her annibynnol y bydd Anna Daniel yn archwilio iddynt.

## 5 Unrhyw Fusnes Arall

Adroddodd David Melding yn ôl i'r Comisiwn ar yr ymweliad diweddar â Bosnia Herzegovina, a oedd yn nodi 20 mlynedd ers y digwyddiadau yn Srebrenica. Dywedodd y cynhelir digwyddiad yn y Senedd ar 8 Gorffennaf.

Nododd y Llywydd fod digwyddiadau wythnos y Cynulliad yn Wrecsam wedi bod yn llwyddiannus.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Comisiwn ar 21 Mai, pan fydd y Comisiynwyr yn cynnal un o'u cyfarfodydd rheolaidd i ganolbwyntio ar berfformiad.

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Comisiwn y Cynulliad
Assembly Commission

# Adroddiad i'r Comisiwn ar y prif bwyntiau

## O fis Ionawr i fis Ebrill 2015

### Cynnwys


1.0 Cyflwyniad ........ 3

**A. Nod strategol – darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf** ........ 3

2.0 Yr adolygiad o Gofnod y Trafodion ........ 3

3.0 Gwell gwasanaethau dwyieithog ........ 4

4.0 Defnydd yr Aelodau o'r Gwasanaeth Ymchwil ........ 5

5.0 Y Bwrdd Taliadau ........ 6

6.0 Newid cyfansoddiadol ........ 7

7.0 Cefnogi'r Pwyllgorau ........ 8

8.0 Prosiect y Siambr ........ 8

9.0 Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu ........ 8

10.0 Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) i'r Aelodau a'u staff cymorth ... 10

**B. Nod strategol – ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru** ........ 11

11.0 Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus ........ 11

12.0 Cynnwys pobl ifanc yng ngwaith y Cynulliad ........ 12

13.0 Digwyddiadau Mawr ........ 14

14.0 Ymgysylltiad y cyhoedd â phwyllgorau ........ 14

15.0 Sylw yn y cyfryngau ........ 15

16.0 Y Cyfryngau Cymdeithasol ........ 17

17.0 Hyrwyddo Cymru yn rhyngwladol ........ 18

**C. Nod strategol – defnyddio adnoddau'n ddoeth** ........ 19

18.0 Gwaith ar ystâd y Cynulliad – blaengynllun cynnal a chadw 10 mlynedd. ........ 19

19.0 Mentrau cynaliadwyedd......20
20.0 Materion staff......20
21.0 Cydraddoldeb a hygyrchedd......23
**D. Y wybodaeth ddiweddaraf am Faterion Ariannol** ......25
22.0 Blwyddyn Ariannol 2014–15......25
23.0 Blwyddyn Ariannol 2015-16 a thu hwnt......25
**E. Rhyddid Gwybodaeth** ......27
24.0 Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2015..27
**F. Atodiadau**......28
Atodiad A - Ymgysylltu â Phobl Ifanc: allgymorth ......28
Atodiad B - Prif ddigwyddiadau eraill a gynhaliwyd rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2015......30
Atodiad C – y cyfryngau cymdeithasol mewn ffigurau......32
Atodiad D - Digwyddiadau ac ymweliadau rhyngwladol, gan gynnwys ymweliadau diplomyddol......33
Atodiad E – Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth......36

Mai 2015

## Adroddiad i'r Comisiwn ar y prif bwyntiau – O fis Ionawr i fis Ebrill 2015

### 1.0 Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r gwaith sydd wedi'i wneud yn ddiweddar, neu sy'n mynd rhagddo, i wneud cynnydd tuag at gyflawni nodau strategol y Comisiwn. Nod yr adroddiad yw rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i'r Comisiynwyr, er mwyn iddynt allu cyflawni eu swyddogaethau o ran goruchwylio a dwyn y rheolwyr i gyfrif. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau a phrosiectau allweddol ers mis Ionawr 2015.

## A. Nod strategol – darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf

### 2.0 Yr adolygiad o Gofnod y Trafodion

2.1 Rhwng mis Tachwedd a mis Ionawr, cynhaliwyd cyfres o ymgynghoriadau fel rhan o'r adolygiad i ystyried sut yr ydym yn cofnodi trafodion y Cynulliad. Yn sgil y gwaith hwnnw, cynigiwyd sawl ffordd o ddarparu cofnod dwyieithog o drafodion y Senedd, a fyddai'n addas ar gyfer dulliau cyfathrebu'r unfed ganrif ar hugain, y gellid ei ailddefnyddio, ac a fyddai ar gael yn gynt ac yn haws. Mae argymhellion ar gyfer newidiadau yn cael eu datblygu ar y cyd ag arbenigwr blaenllaw mewn democratiaeth ddigidol.

2.2 Rydyn ni'n trafod y goblygiadau o wneud buddsoddiad mwy sylweddol, ond yn y cyfamser rydyn ni'n gwneud gwelliannau'n raddol lle bo hynny'n bosibl. Er enghraifft, trwy newid y patrymau gwaith, rydyn ni wedi llwyddo i gyhoeddi'r fersiwn ddrafft gynnar o'r Cofnod ar y fewnrwyd mewn darnau o 15 munud ar y diwrnod y cafodd ei lefaru, hyd at 17:30. Cyn hynny, roedd rhannau o'r fersiwn ddrafft gynnar yn cael eu cyhoeddi fore drannoeth.

2.3 Ym mis Ionawr, aethom ati i newid arddull golygu'r Cofnod, gan symud tuag at arddull gair am air. Mae'r newid yn golygu bod y cofnod ysgrifenedig yn cyd-fynd yn agosach â'r cofnod clyweledol, er

y caiff ei olygu ychydig bach er mwyn ei wneud yn haws ei ddarllen. Er bod geiriau sy'n cael eu hailadrodd a geiriau diangen yn cael eu hepgor, ac unrhyw gamgymeriadau amlwg yn cael eu cywiro, mae'r cofnod yn cadw mor agos ag y bo modd at y geiriau a ddefnyddir.

2.4 Yng ngham cyntaf yr adolygiad, gwelwyd y gellid bod yn fwy effeithlon ac arbed amser pe bai'r Aelodau yn rhannu copïau electronig o'u hareithiau neu eu nodiadau areithio gyda staff Cofnod y Trafodion, ac agorwyd mewnflwch e-bost pwrpasol ar gyfer hyn. Mae'r areithiau yn cael eu trin yn gwbl gyfrinachol, ac yn cael eu diwygio yn ôl y modd y cawsant eu cyflwyno. Er ein bod wedi siarad â'r Aelodau a swyddfa'r Cabinet am y syniad hwn, hyd yma ychydig o areithiau a ddaw i law yn y modd hwn. Rydyn ni'n trafod pa gamau eraill y gellir eu cymryd i hwyluso a gwella'r gyfradd ymateb.

2.5 Bydd adroddiad llawn am hynt y gwaith a'r argymhellion yn cael ei lunio ar gyfer y Comisiwn yn ystod tymor yr hydref.

## 3.0 Gwell gwasanaethau dwyieithog

3.1 Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu a hyrwyddo Microsoft Translator, mae'r Gwasanaeth Cyfieithu yn ystyried sut y gellir sicrhau bod capasiti'r gwasanaeth yn gallu diwallu'r galw cynyddol am wasanaethau dwyieithog.

3.2 Yn unol â blaenoriaethau Cynllun Ieithoedd Swyddogol y Comisiwn ar gyfer 2014-15, lansiwyd ein Strategaeth Sgiliau Dwyieithog ym mis Ebrill 2015. Mae sylw'r Strategaeth ar bedwar maes - codi ymwybyddiaeth, lefel y sgiliau presennol, mapio'r capasiti presennol i ddarparu gwasanaethau dwyieithog, a hyfforddiant. Bydd y Strategaeth yn ein helpu i ddangos dyhead parhaus i wella'r gwasanaethau dwyieithog a ddarperir gennym, a chyrraedd y nod o gael ein cydnabod yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog.

3.3 Hefyd, cynhaliwyd archwiliad o sgiliau iaith Gymraeg, a bydd hynny'n cynorthwyo llawer arnon ni o ran cynllunio gwasanaeth dwyieithog i gwsmeriaid, a'i wella.

## 4.0 Defnydd yr Aelodau o'r Gwasanaeth Ymchwil

*Gwneud gwybodaeth yn fwy diddorol a hygyrch*

4.1 Yn dilyn adborth cadarnhaol iawn, rydyn ni wedi llunio rhagor o ffeithluniau sy'n dangos gwybodaeth ariannol a chyllidebol, a gwybodaeth am bynciau llosg, mewn ffordd weledol, sy'n haws ei deall, ac sy'n ennyn diddordeb. Bu cryn ddiddordeb yn yr erthygl blog a'r ffeithlun a gyhoeddwyd ym mis Ebrill am Etholiad Cyffredinol 2015: y frwydr yng Nghymru; edrychwyd arno 2,861 o weithiau hyd yn hyn, cafodd ei ail-drydar 19 gwaith, a ffurfiwyd 418 o 'gysylltiadau' (nifer y bobl a gliciodd ar hashnodau, lincs a'r enw Twitter).

4.2 Mae tudalennau newydd Cymorth Etholaethol ar y rhyngrwyd, yn cynnwys amryw o daflenni ffeithiau defnyddiol am etholaethau, a mapiau etholaethol a rhanbarthol rhyngweithiol a statig. Mae'r proffiliau rhyngweithiol yn dangos data Cyfrifiad 2011, a'r ffigurau arferol am y boblogaeth breswyl, oedran, sgiliau iaith Gymraeg a chrefydd, ymhlith pethau eraill, a gellir eu defnyddio i gymharu etholaethau a rhanbarthau'r Cynulliad.

4.3 Dengys y mapiau rhyngweithiol nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau diweithdra ar gyfer etholaethau'r Cynulliad, gan ei gwneud yn haws i archwilio patrymau yn y data a gweld tueddiadau dros amser, ac mae'r data diweithdra o 2012 i 2015 yn dangos y cyfraddau diweithdra ar gyfer dynion a menywod.

4.4 Rydyn ni'n anfon cylchlythyr at yr Aelodau a'u staff cymorth unwaith yr wythnos ac unwaith y mis sy'n cynnwys lincs i holl gyhoeddiadau'r Gwasanaeth Ymchwil a'r erthyglau a gyhoeddwyd ar Pigion yn ystod yr wythnos a'r mis a aeth heibio. Mae'r gwasanaethau hyn yn ategu'r gwasanaethau wythnosol eraill a ddosberthir drwy gyfrwng MailChimp, megis *Busnes y Cynulliad*, *Busnes San Steffan sy'n berthnasol i Gymru* a *Chyhoeddiadau ac Ymgynghoriadau Newydd*.

*Defnydd yr Aelodau o'r Gwasanaeth Ymchwil*

4.5 Mae Aelodau'r Cynulliad a'u staff yn parhau i ddefnyddio'r Gwasanaeth Ymchwil yn rheolaidd ac yn aml ar gyfer ymholiadau ymchwil cyfrinachol ac unigol. Mae'r ffigurau canlynol wedi'u cymryd o'r gronfa ddata lle rydyn ni'n cofnodi pob ymholiad 'ffurfiol'. Dydyn nhw ddim yn cynnwys yr holl ymholiadau cyflym a dderbyniwn gan y Llyfrgell, neu drwy alwadau ffôn anffurfiol. Mae'r ffigurau hyn yn debyg i'r rhai a gofnodwyd eisoes, ac fe welir eu bod yn parhau'n gyson.

| **Cyfnod** | **Nifer yr ACau a wnaeth ymholiad** | **Nifer a ofynnodd o leiaf ddwywaith** | **Nifer a ofynnodd o leiaf deirgwaith** | **Nifer a ofynnodd o leiaf bedair gwaith** |
|---|---|---|---|---|
| Ionawr - Ebrill 2015 | 55 (92%) | 48 (80%) | 46 (77%) | 41 (68%) |

## 5.0 Y Bwrdd Taliadau

5.1 Mae'r Bwrdd Taliadau annibynnol wedi ystyried pob agwedd ar y pecyn taliadau i'r Aelodau yn y Pumed Cynulliad. Roedd hynny'n cynnwys adolygiad llawn o'r trefniadau pensiwn, newidiadau i faterion sy'n ymwneud â'r trefniadau ar gyfer staff cymorth Aelodau'r Cynulliad, a lwfansau a chyflogau Aelodau'r Cynulliad.

5.2 Cyhoeddodd y Bwrdd ei ymgynghoriad terfynol ar y Penderfyniad drafft, sy'n cynnwys y materion hyn, ar 3 Mawrth 2015, gyda dyddiad cau o 8 Ebrill. Roedd yn cynnwys, am y tro cyntaf, ymgynghoriad ar gynigion y Bwrdd ar gyfer cymorth Grŵp yn y Pumed Cynulliad.

5.3 Ar 24 Ebrill cyfarfu'r Bwrdd i ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac i gytuno ar y Penderfyniad terfynol. Caiff hwnnw ei lansio ar 22 Mai 2015, ynghyd ag adroddiad cysylltiedig sy'n esbonio'r fethodoleg a ddefnyddiodd y Bwrdd wrth wneud ei benderfyniadau. Hefyd, cyhoeddodd y Bwrdd ei Benderfyniad drafft ar gyfer blwyddyn olaf y Pedwerydd Cynulliad ym mis Ebrill 2015.

5.4 Yn ystod y misoedd nesaf, bydd y Bwrdd Taliadau yn trafod y materion y bydd y Bwrdd nesaf yn eu hetifeddu, ac yn gofyn am gymeradwyaeth gan Drysorlys Ei Mawrhydi ar gyfer cynllun pensiwn Aelodau'r Cynulliad.

## 6.0 Newid cyfansoddiadol

6.1 Yn dilyn y refferendwm ar annibyniaeth yr Alban a sefydlu Comisiwn Smith, cyhoeddodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ei fwriad i sicrhau consensws trawsbleidiol tebyg ar ddatganoli i Gymru yn y dyfodol, yn seiliedig ar ail adroddiad Comisiwn Silk. Bu'r Llywydd yn cwrdd ac yn gohebu â'r Ysgrifennydd Gwladol ac Arweinwyr y Pleidiau'n rheolaidd i gyflwyno cyfres o gynigion yn seiliedig ar ei chyflwyniad i Gomisiwn Silk, gan ymgorffori elfennau ychwanegol sy'n deillio o'r hyn a ddigwyddodd yn yr Alban.

6.2 Ym mis Ionawr 2015, cyhoeddodd y Comisiwn "Dyfodol y Cynulliad: sicrhau capasiti i gyflawni ar gyfer Cymru”. Mae'r ddogfen yn dadlau'r achos dros gael rhagor o Aelodau, ac yn dangos faint, o bosibl, y gallai 80, 90 neu 100 o Aelodau ei gostio. Mae hefyd yn cefnogi'r egwyddor allweddol y dylai'r Cynulliad gael mwy o annibyniaeth i drefnu ei fusnes ei hun, gan ategu safiad y Llywydd.

6.3 Roedd cyhoeddiad Dydd Gŵyl Dewi Llywodraeth y DU ar 27 Chwefror yn gosod y llinell sylfaen ar gyfer dyfodol datganoli yng Nghymru. Ymhlith y cytundebau allweddol ar faterion y gofynnodd y Llywydd a'r Comisiwn amdanyn nhw roedd y canlynol:

- Cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad - symud o fodel rhoi pwerau i fodel cadw pwerau, fel yn yr Alban;
- cydnabyddiaeth o sefydlogrwydd y Cynulliad, a rheolaeth dros ei weithrediadau a'i drefniadaeth ei hun, ee ei enw, strwythurau'r pwyllgorau ac ati; a
- phwerau dros faterion etholiadol, gan gynnwys maint y Cynulliad a'r oedran pleidleisio.

6.4 Rydyn ni bellach yn gweithio ar oblygiadau cyhoeddiad Dydd Gŵyl Dewi i'r Cynulliad, gan geisio dylanwadu ar y Bil Cymru nesaf, a mynd ati i drosglwyddo pwerau.

## 7.0 Cefnogi'r Pwyllgorau

7.1 Bellach, mae'r Pwyllgor Cyllid wedi cyhoeddi dau adroddiad ar yr arferion gorau o ran y gyllideb mewn ymateb i'r argymhellion a wnaeth Comisiwn Silk a'r cynlluniau ar gyfer datganoli'r pwerau i godi trethi yn y dyfodol. Roedd yr ail adroddiad, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2015, yn cynnig proses gyllidebol a oedd yn seiliedig ar y dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor ynghylch yr arferion gorau. Argymhellodd y Pwyllgor fod y Cynulliad a'r Llywodraeth yn gweithio gyda'i gilydd i roi trefn gyllidebol newydd ar waith sy'n diwallu anghenion a gofynion y naill sefydliad a'r llall. Mae'r gwaith hwn bellach ar y gweill.

## 8.0 Prosiect y Siambr

8.1 Ar ddechrau 2015 cawsom broblemau gydag un o'r prif gyflenwyr, a olygai bod risg sylweddol i'r prosiect. Cytunodd y Comisiwn ym mis Mawrth 2015 i ymestyn amserlen y prosiect i 2016, er mwyn cael amser i gaffael system newydd. Felly, mae holl elfennau gwreiddiol y prosiect: datblygu meddalwedd, dethol a phrofi caledwedd, dylunio a gwella desgiau, yn cael eu bwrw ymlaen i'r amserlen newydd. Mae'r gwaith ar ddatblygu meddalwedd i'w defnyddio yn y Siambr yn ystod y Cyfarfod Llawn yn dod yn ei flaen yn dda.

8.2 Gan nad yw'r prif waith ar y Siambr yn digwydd yr haf hwn wedi'r cyfan, rydyn ni'n ystyried pa welliannau y gallwn ni eu gwneud yn y cyfamser.

## 9.0 Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

*Ap y Cynulliad*

9.1 Lansiwyd yr ap yn swyddogol ddiwedd mis Mawrth, yn y derbyniad TEDx a gynhaliwyd yn y Senedd. Nod yr ap dwyieithog yw sicrhau bod gwybodaeth am y Cynulliad a'i waith ar gael yn hwylus i bobl ar eu

dyfeisiau symudol. Mae wedi'i ryddhau ar fersiynau 'beta' sy'n gydnaws â ffonau iPhone, Android a Windows. Nid yw'r fersiynau ar gyfer dyfeisiau tabled wedi'u datblygu hyd yma.

*Microsoft Office*

9.2 Fel rhan o raglen ehangach o ddatblygiadau TGCh, rydyn ni wedi uwchraddio pecyn Microsoft Office ar gyfer pob defnyddiwr yn Nhŷ Hywel a Bae Colwyn, ac wedi rhoi mwy o gof ar bob peiriant i wella perfformiad. Fel rhan o'r gwaith uwchraddio rydyn ni wedi cyflwyno Microsoft Lync 2013 (a elwir hefyd yn 'Skype for Business'). Bydd hwn yn sail i system ffôn newydd y Cynulliad a fydd ar gael yn Ystâd y Cynulliad a swyddfa Bae Colwyn.

*System ffôn newydd*

9.3 Mae llawer o waith wedi'i wneud i osod a sefydlu'r seilwaith i redeg y system ffôn newydd. Fel rhan o'r prosiect, mae'r Rheolwyr Cyfrifon TGCh wedi ymweld â swyddfeydd yr holl Aelodau i weld beth sydd ei angen arnyn nhw a sut bydden nhw'n hoffi i'r system newydd weithio. Mae TGCh hefyd wedi cynnal nifer o gyflwyniadau a sesiynau galw heibio yn Nhŷ Hywel a'r Senedd.

9.4 Yn anffodus, oherwydd oedi y tu hwnt i'n rheolaeth ar ochr y cyflenwyr, nid oes modd cyflwyno'r system ffôn newydd ar benwythnos 23 Mai, fel y bwriadwyd yn wreiddiol. Rydyn ni wedi gwneud ein gorau i gael dyddiad newydd gan y cyflenwr, ond ni all wneud hynny am fod rhagor o waith technegol yn cael ei wneud ar y rhwydwaith ffibr yn yr ardal leol. Rydyn ni'n dal yn hyderus y bydd y system ffôn newydd yn cael ei chyflwyno yn nes ymlaen yn yr haf ac y bydd dyddiad pendant ar gael maes o law.

9.5 Oherwydd yr oedi hwn, bydd y rhif ffôn 02920 a'r rhifau estyniad yn dal yn ddilys hyd nes caiff y system ei chyflwyno.

9.6 Rydyn ni wedi treialu llwybryddion (routers) a chysylltiadau newydd yn llwyddiannus mewn nifer o swyddfeydd etholaeth, i wella perfformiad ac i ddarparu wi-fi ar gyfer pob dyfais yn y mannau

hynny. Rydyn ni'n bwriadu cyflwyno'r systemau newydd hyn i bob swyddfa yn ystod y misoedd nesaf.

*Contract darlledu newydd*

9.7 Mae cam cyntaf y broses werthuso ar gyfer tendro am gontract darlledu newydd y Cynulliad wedi'i gwblhau, a gwahoddwyd yr ymgeiswyr llwyddiannus i dendro'n ffurfiol. Disgwylir y bydd penderfyniad wedi'i wneud erbyn diwedd mis Mehefin, ac y bydd y contract newydd yn dechrau ym mis Medi.

## 10.0 Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) i'r Aelodau a'u staff cymorth

10.1 Rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2015 cafodd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth amrywiaeth eang o sesiynau hyfforddiant a chyfleoedd datblygu. Er na chymerodd unrhyw Aelod newydd ran yn y gweithgarwch DPP yn ystod y cyfnod hwn, manteisiodd Aelodau'r Cynulliad ar 88 cyfle datblygu.

10.2 Yn ystod yr un cyfnod, cymerodd 26 aelod o staff cymorth newydd ran mewn gweithgaredd DPP, a chynigiwyd cyfanswm o 167 o gyfleoedd DPP. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys:

- Menter DPP ar y cyd â Chynulliad Gogledd Iwerddon ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau.
- Hyfforddiant ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau
- Ymwybyddiaeth Ofalgar ar gyfer Aelodau'r Cynulliad
- Diwrnod meithrin sgiliau tîm ar gyfer Aelodau'r Cynulliad
- Sesiwn friffio Bil Cymru 2014
- Gwybodaeth am yr Ombwdsmon
- Darllen yn effeithiol ac yn gyflym
- Ysgrifennu'n effeithiol – cwrs uwch
- Hyfforddiant ar y cyfryngau cymdeithasol
- Y diploma rheoli ac arwain
- Sgiliau pendantrwydd
- Cymraeg Dwys

# B. Nod strategol – ymgysylltu â phobl Cymru a hyrwyddo Cymru

## 11.0 Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus

11.1 Mae'r ymgyrch Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus, sydd bellach yn ei phedwaredd flwyddyn, wedi dod yn llais blaenllaw yn y ddadl o blaid cydraddoldeb rhwng y rhywiau a chynrychiolaeth gyfartal, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

*Adroddiad y cawcws Menywod mewn Democratiaeth*

11.2 Mae'r Cawcws Menywod mewn Democratiaeth yn cynnwys un cynrychiolydd o bob plaid wleidyddol yn y Cynulliad, a chaiff ei gadeirio gan y Llywydd. Ar 11 Mawrth, lansiodd ei adroddiad terfynol a oedd yn cynnwys argymhellion ar gyfer y pleidiau gwleidyddol, y Cynulliad a Llywodraeth Cymru. Nod y cawcws oedd trafod a rhannu arfer gorau, yn enwedig o seneddau eraill o bob cwr o'r byd, er mwyn cynyddu nifer y menywod yn y maes seneddol.

*Cynllun Datblygu Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus*

11.3 Erbyn hyn, mae'r Cynllun Datblygu a luniwyd gan y Llywydd i helpu menywod gymryd y cam nesaf i fywyd cyhoeddus, wedi cyrraedd yr hanner ffordd. Mae tair o'r 14 menyw sy'n cael eu mentora eisoes wedi gwneud cais llwyddiannus am swyddi mewn bywyd cyhoeddus. Mae dwy arall yn sefyll i'w hethol, y naill yn etholiadau'r Cynulliad a'r llall yn etholiadau cyngor tref.

*Diwrnod Rhyngwladol y Menywod 2015*

11.4 I nodi Diwrnod Rhyngwladol y Menywod 2015 cynhaliwyd amryw ddigwyddiadau ym mis Mawrth ar ystâd y Cynulliad ac yn Wrecsam, fel rhan o #SeneddWrecsam. Nod y rhain oedd annog mwy o fenywod i wneud cais am swyddi mewn bywyd cyhoeddus, ac i ennyn diddordeb cyffredinol yn y ddadl ar gydraddoldeb rhywiol.

11.5 Rhwng 8 ac 13 Mawrth, goleuwyd y Senedd yn borffor fel rhan o'r ymgyrch byd-eang #PaintitPurple i godi ymwybyddiaeth o'r problemau sy'n parhau o ran cydraddoldeb rhywiol.

11.6 Yn ogystal â'r gweithgareddau hyn, gwahoddwyd y Llywydd i siarad mewn nifer o ddigwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol eraill. Bu'n bresennol mewn cyfanswm o 14 o ddigwyddiadau Diwrnod Rhyngwladol y Menywod ym mis Mawrth, gan ddod i gysylltiad â mwy na 1,200 o bobl.

11.7 Bu cynnydd hefyd yn y defnydd a wnaed o'n cyfrifon corfforaethol ar y cyfryngau cymdeithasol ym mis Mawrth:

| | **Y neges drydar fwyaf poblogaidd** | **Cyfartaledd y bobl a welodd ein negeseuon trydar bob dydd** |
|---|---|---|
| **Ionawr 2015** | Gwelodd **2,604** o bobl y replica 3D o'r gadair ddu | 1,300 |
| **Chwefror 2015** | Gwelodd **2,857** o bobl y neges drydar Pleidleisio@16 | 2,700 |
| **Mawrth 2015** | Gwelodd **6,083** o bobl y neges drydar #PaintitPurple | 3,000 |

## 12.0 Cynnwys pobl ifanc yng ngwaith y Cynulliad

*Ymgysylltu â Phobl Ifanc: allgymorth*

12.1 Yn Atodiad A mae rhestr o'r sefydliadau a fu'n rhan o'n gweithgaredd ymgysylltu â phobl ifanc ers mis Ionawr, gan gynnwys ymweliadau â'r Cynulliad, ymweliadau oddi ar y safle neu gyfrwng ar gyfer rhannu gwybodaeth.

*Ymgysylltu â Phobl Ifanc: galluogi trafodaeth*

12.2 Ar y cyd â phedwar fforwm ieuenctid (Caerffili, Torfaen, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin), mae gwaith ar y gweill i ddylunio a phrofi pecyn

'hyfforddi'r hyfforddwr' fel y gall pobl ifanc gyflwyno gweithdy i'w cyfoedion ynghylch '*Beth yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru?* Caiff hwn ei gyflwyno i fudiadau ieuenctid o fis Medi 2015 ymlaen. Mae'r gweithgareddau yn cael eu datblygu ar y cyd â phrifysgolion a cholegau Cymru a sefydliadau proffesiynol, a hynny mewn ffordd a fydd hefyd yn sail i sesiynau hyfforddi i'w cynnwys mewn gweithgaredd DPP ar gyfer gweithwyr ieuenctid. Drwy'r gwaith hwn cawsom gyfle hefyd i ddatblygu rhaglenni hyfforddiant a gwybodaeth ar y cyd ag academi hyfforddiant ACT yng Nghaerdydd a Portal Training, sy'n cynnig cymhwyster SWEET (Llwyddo mewn Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant) a anelwyd yn benodol at grwpiau NEET.

*Pleidleisio@16*

12.3 Ers mis Rhagfyr 2014, mae dros 3,000 o bobl ifanc wedi cyfrannu at y sgwrs genedlaethol ar ostwng yr oedran pleidleisio i 16. Bydd yr ymgynghoriad yn parhau tan 2 Mehefin 2015.

*#SeneddWrecsam*

12.4 Yn ystod wythnos #SeneddWrecsam, cynhaliwyd gweithdy ymgysylltu â phobl ifanc, a drefnwyd gan gynrychiolwyr o Senedd Ni, Wrecsam, yng nghwmni'r Llywydd a'r Aelod Cynulliad Lleol, Leslie Griffiths AC.




12.5 Rhai o'r gweithgareddau eraill yn yr ardal oedd diwrnod digidol yng Ngholeg Cambria, lle bu dros 300 o fyfyrwyr ar fws y Cynulliad i drafod eu barn ar ostwng yr oedran pleidleisio.

## 13.0 Digwyddiadau Mawr

13.1 Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau o bwys yn ystod y chwarter a ddaeth i ben ddiwedd mis Mawrth 2015. Ceir manylion llawnach yn Atodiad B ac maent yn cynnwys:

- Y Gadair Ddu – rhan o'n rhaglen bedair blynedd i nodi canmlwyddiant ers dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf;
- Dydd Gŵyl Dewi 2015 – diwrnod i'r teulu yn y Senedd, gydag adloniant cerddorol gan blant o ysgolion lleol;
- TEDx Caerdydd / lansio ap symudol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gyda dros 200 o westeion;
- #SeneddWrecsam – menter arbrofol i fynd â'r Cynulliad ar daith. Trefnwyd gweithdai allgymorth ac ymgysylltu a mentrau codi ymwybyddiaeth o Pleidleisio@16, POWiPL a'r Diffyg Democrataidd. Cyrhaeddwyd bron i 2000 o bobl a chafwyd cryn sylw yn y wasg leol;
- Sesiynau i staff Canolfan Llywodraethiant Cymru – pedair sesiwn friffio arbenigol ar gyfer staff ar bynciau fel y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru a'r Etholiad Cyffredinol.

## 14.0 Ymgysylltiad y cyhoedd â phwyllgorau

14.1 Cynhaliwyd nifer o weithgareddau cyhoeddus i gefnogi gwaith y pwyllgorau i annog amrywiaeth ehangach o bobl i gymryd rhan yng ngwaith y Cynulliad, gan gynnwys:

- Cymerodd aelodau o'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ran yn y sesiwn gyntaf o ddwy sesiwn grwpiau cyfeirio gyda chleientiaid a staff rheng flaen o wahanol rannau o Gymru ar gyfer yr ymchwiliad i gamddefnyddio alcohol a sylweddau. Cynhelir yr ail sesiwn ym mis Mehefin cyn y sesiwn dystiolaeth lafar derfynol. Fel rhan o'r ymchwiliad, cynhaliodd y Pwyllgor hefyd arolwg o dros 600 o bobl, gan gynnwys aelodau o'r cyhoedd.

- Cymerodd tenantiaid ran mewn cyfres o drafodaethau bwrdd crwn anffurfiol gydag Aelodau o'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i rannu eu safbwyntiau ar y Bil Rhentu Cartrefi Cymru, fel rhan o graffu Cyfnod 1 ar y Bil. https://www.youtube.com/watch?v=ViH0u6GFCpk

## 15.0 Sylw yn y cyfryngau

15.1 Cyhoeddwyd cyfanswm o **48 datganiad i'r wasg** rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2015.

*Sylw i bwyllgorau'r Cynulliad yn y cyfryngau*

15.2 Cafodd nifer o weithgareddau sy'n gysylltiedig â phwyllgorau sylw da yn y cyfryngau yng Nghymru yn ystod y cyfnod. Maen nhw'n cynnwys canlyniadau arolwg ar waith athrawon cyflenwi fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a chafwyd ymatebion gan 900 o blant ysgol. Yn sgil yr arolwg cafwyd tystiolaeth sylweddol ar bwnc arbenigol a gafodd sylw eang ar nifer o gyfryngau BBC Cymru ar ôl y lansiad, gan gynnwys yr eitem ganlynol a oedd yn brif newyddion y dydd: http://www.bbc.co.uk/cymrufyw/31861765

Wales | Wales Politics | North West | North East | Mid | South West | South East | C

# 80% 'learn less' with supply teacher - survey for AMs

By Arwyn Jones
BBC Wales education correspondent

12 March 2015 | Wales



**How much do you think you learn when you have a lesson covered by a supply teacher?**

| | |
|---|---|
| Learn more than with my usual teacher | 3.7% |
| About the same as with my usual teacher | 15.7% |
| Learn less than with my usual teacher | 80.5% |

(Total: 908 replies)

**How often are you taught by a supply teacher?**

| | |
|---|---|
| Every week | 23.8% |
| Every two weeks | 20.4% |
| Every month | 23.6% |
| Every 1 - 6 months | 16.9% |
| Once a year | 2% |
| Never | 8.7% |

(Total. 864 replies)

**More than 80% of pupils in Wales say they learn less when they are taught by a supply teacher.**

Nearly a quarter of children reported being taught by a supply teacher every week, in a survey for assembly members.

15.3 Yn ogystal, rhoddwyd cryn sylw i'r adroddiadau pwyllgor canlynol pan gawson nhw eu cyhoeddi:

| Mis | Ymchwiliad | Sylw |
|---|---|---|
| Ionawr | Ymchwiliad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i'r Bil Cynllunio (Cymru) | *BBC Cymru, S4C a'r Western Mail* |
| Chwefror | Ymchwiliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i ganlyniadau addysgol plant o gartrefi incwm isel | *BBC Cymru, S4C, ITV a'r Western Mail* |

| Mis | Ymchwiliad | Sylw |
|---|---|---|
| Mawrth | Ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Busnes i Helpu Pobl Ifanc i Gael Gwaith | *BBC Cymru, S4C, ITV, Western Mail, South Wales Echo a Walesonline* |
| | Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i sylweddau seicoweithredol newydd | *BBC Cymru, S4C a'r Western Mail* |
| Ebrill | Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'r Gwasanaethau Ambiwlans yng Nghymru | *Western Mail, BBC Cymru ac ITV* |

*<u>Y sylw a roddwyd i'r Llywydd/Cyfryngau Corfforaethol</u>*

15.4 Gweler isod rai enghreifftiau o'r sylw a roddwyd:

| Mis | Disgrifiad | Sylw |
|---|---|---|
| Ionawr | 4ydd yn rhestr Stonewall o sefydliadau sy'n gyfeillgar i bobl hoyw | *The Independent, Wales Online/Western Mail, Human Resources Magazine, The Guardian, The Times, Sianel Newyddion y BBC* |
| Chwefror | Dyfarniad y Goruchaf Lys ar y Bil Asbestos - Ymateb y Llywydd | *BBC Cymru, S4C, Golwg 360, South Wales Argus, Daily Post, Western Mail, ITV Cymru* |
| Mawrth | Wythnos #SeneddWrecsam | *16 darn golygyddol yn yr Evening Leader (rhifynnau Wrecsam a Sir y Fflint), Daily Post* |
| | Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus - Diwrnod Rhyngwladol y Menywod ac achlysur lansio adroddiad y cawcws | *Newyddion BBC Cymru, BBC Ar-lein, Wales Report, Golwg 360, Western Mail, ITV Cymru* |

## 16.0 Y Cyfryngau Cymdeithasol

16.1 Ers y flwyddyn newydd, rydyn ni wedi mynd ati i gryfhau ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol, er na fu gennym Reolwr Cyfryngau

Cymdeithasol yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r swydd bellach wedi'i llenwi a disgwylir i'r rheolwr newydd ddechrau ar ei waith ym mis Mai.

16.2 Cynhyrchodd wythnos allgymorth ac ymgysylltu'r Cynulliad, a gynhaliwyd yn Wrecsam ym mis Mawrth, y nifer uchaf erioed o weithgaredd ar y cyfryngau cymdeithasol mewn digwyddiad a drefnwyd gan y Cynulliad.

16.3 Ceir rhagor o uchafbwyntiau'r cyfnod hwn yn Atodiad C.

**17.0 Hyrwyddo Cymru yn rhyngwladol**

17.1 Rhestrir y prif ddigwyddiadau a'r ymweliadau rhyngwladol, gan gynnwys ymweliadau diplomyddol, yn Atodiad D.

# C. Nod strategol – defnyddio adnoddau'n ddoeth

## 18.0 Gwaith ar ystâd y Cynulliad – blaengynllun cynnal a chadw 10 mlynedd

18.1 Fel rhan o'r rhaglen fuddsoddi dymor hir (rhaglen dreigl) yn y blaenoriaethau ar gyfer yr ystâd, mae'r prosiectau canlynol wedi'u cwblhau yn ystod y chwe mis diwethaf yn y Pierhead a Thŷ Hywel.

*Adnewyddu'r offer aerdymheru yn swyddfeydd yr Aelodau*

18.2 Gan fod yr unedau yn Nhŷ Hywel yn 14 oed ac yn agosáu at ddiwedd eu hoes, a chan ystyried y dadansoddiad o'r adborth o arolwg yr Aelodau, rydyn ni wedi gosod unedau newydd yn swyddfeydd yr Aelodau sy'n fwy cynaliadwy o ran y nwy oerydd a ddefnyddir ac yn effeithlon o ran ynni, gan gyfrannu'n effeithiol at gyrraedd y targedau lleihau carbon.

*Ailddodrefnu'r ystafelloedd cynadledda a chyfarfod*

18.3 Yn dilyn adborth gan y Comisiynwyr a'r Aelodau, mae'r ystafelloedd cynadledda a chyfarfod ledled Tŷ Hywel wedi'u hailaddurno a'u hail-garpedu ac mae goleuadau LED ynni isel wedi'u gosod. Mae'r ystafelloedd ar eu newydd wedd bellach yn rhoi gwell argraff o'r Cynulliad i'r amrywiaeth eang o ymwelwyr a sefydliadau sy'n eu defnyddio.

*Gwella hygyrchedd lifftiau Tŷ Hywel*

18.4 Yn ystod mis Mawrth 2015 uwchraddiwyd pob lifft yn Nhŷ Hywel yn unol â'r gofynion hygyrchedd, Deddf Cydraddoldeb 2010, a'r rheoliadau adeiladu. Roedd y newidiadau yn cynnwys gostwng y paneli rheoli a'r botymau ym mhob lifft, rhoi signalau gweledol a chlywadwy, gosod system gyfathrebu heb ddwylo, gwella'r golau, ail-leoli'r canllawiau, a rhoi botymau a phaneli newydd yn ardaloedd y lifft.

*Ailaddurno'r grisiau ac ardaloedd y lifft*

18.5 Yn ddiweddar, rydyn ni wedi adnewyddu'r grisiau sy'n arwain at floc B/C a holl ardaloedd y lifft yn yr un steil â grisiau'r Atrium. Nid oedd y grisiau wedi'u hadnewyddu ers adeiladu'r adeilad yn 1992, felly maen nhw wedi'u hailaddurno a'u hail-garpedu a gosodwyd goleuadau LED ynni isel i gefnogi ein hamcanion cynaliadwyedd.

*Ailaddurno Prif Neuadd y Pierhead*

18.6 Soniodd y Tîm Darlledu mewn adborth yn ddiweddar fod y lliw gwyrdd yn y Brif Neuadd yn edrych yn ddiflas a thywyll ar y teledu. Er mwyn gwella'r ffordd y mae'r Cynulliad yn edrych drwy lygaid camera rydyn ni wedi'i hailbeintio'n oleuach.

## 19.0 Mentrau cynaliadwyedd

*Cwblhau'r Strategaeth Rheoli Carbon Pum Mlynedd*

19.1 Eleni, cyrhaeddwyd cyrraedd carreg filltir bwysig yn ein hymdrechion parhaus i leihau allyriadau carbon y pethau mwyaf arwyddocaol sy'n effeithio ar ein hystâd. Ar ôl dros bum mlynedd o waith caled, buddsoddiad ac ymrwymiad, daeth ein Cynllun Rheoli Carbon i ben ym mis Rhagfyr 2014. Llwyddwyd i sicrhau 35% o ostyngiad yn yr allyriadau ynni, a 4% o ostyngiad yn yr allyriadau o deithiau busnes o gymharu â llinell sylfaen 2008/09. Cydnabu'r Ymddiriedolaeth Garbon fod y gostyngiad hwn mewn allyriadau ynni yn berfformiad sy'n arwain y blaen yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.

## 20.0 Materion staff

*Polisi a chyngor adnoddau dynol*

20.1 Lansiwyd ein gwasanaeth newydd Partneriaid Busnes Adnoddau Dynol. Hanfod y gwasanaeth yw bod Partneriaid Busnes penodol yn cyfarfod â phob Pennaeth Gwasanaeth i drafod gwybodaeth reoli bwysig sy'n ymwneud â'u maes, gan gynnwys sefyllfa'r staff presennol, strwythur a chynllunio gwasanaethau at y dyfodol, rheoli newid, perfformiad ac absenoldeb.

*Digwyddiad absenoldeb rhiant a rennir – Working Families a Chynulliad Cenedlaethol Cymru*

20.2 Ym mis Ionawr, mewn partneriaeth â ni, cynhaliodd y sefydliad Working Families ddigwyddiad yn y Pierhead i drafod Absenoldeb Rhiant a Rennir. Diben y ddeddfwriaeth newydd hon yw rhoi mwy o hyblygrwydd i rieni o ran sut i rannu'r cyflenwad o absenoldeb er mwyn gofalu am eu plentyn yn y flwyddyn gyntaf ar ôl ei eni neu ei fabwysiadu.

20.3 Roedd sefydliadau o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector o bob rhan o Gymru yn bresennol, ynghyd â siaradwyr o ACAS, Working Families ac Admiral, a Phrif Weithredwr ac adran Adnoddau Dynol y Cynulliad. Roedd y digwyddiad yn gyfle i'r Cynulliad ddangos ei fod yn sefydliad hyblyg, sy'n arddel yr arferion gorau.

*Ymgysylltu â Phobl Ifanc a'u Diogelu*

20.4 Er mwyn cefnogi ein strategaeth Ymgysylltu â Phobl Ifanc, cynhaliwyd dau weithdy dwys ar Ddiogelu Plant. Cafodd y gweithdai eu cynllunio a'u datblygu ar y cyd â'r NSPCC, a chafwyd cyfraniad gan staff y Comisiwn sy'n gweithio'n rheolaidd â phlant a phobl ifanc. Hyfforddwr arbenigol o'r NSPCC oedd yn cyflwyno'r gweithdai. Mae gwaith ar y gweill i gyflwyno'r sesiynau diogelu plant i'r holl staff.

*Secondiadau*

20.5 Bu 21 o secondiadau yn y cyfnod rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth 2015. Y mwyaf nodedig o'r rhain yw'r ddau secondiad blwyddyn a gefnogir gennym, y naill i Dŷ'r Arglwyddi a'r llall i Brifysgol De Cymru. Rydyn ni hefyd wedi cefnogi secondiad 5 wythnos i'n swyddfa ym Mrwsel yn ddiweddar.

*Sicrhau Rheoli Perfformiad a Datblygu cadarn sy'n ychwanegu gwerth*

20.6 Er mwyn gwella ein cyfarfodydd trafod perfformiad a gosod amcanion a gynhelir ddwywaith y flwyddyn, ac er mwyn hybu diwylliant o reoli perfformiad a chydnabod llwyddiant, caiff y staff eu hannog a'u cefnogi (drwy gyflwyniadau a sesiynau galw i mewn) i ddefnyddio'r

fframwaith cymwyseddau i asesu pa mor effeithiol y cyflawnwyd y camau gweithredu, ac i ddeall sut y gallan nhw ddefnyddio'r dull hwn i wella'u perfformiad a'u datblygiad.

*Y gyflogres*

20.7 Prif brosiect y tîm yn ystod y chwarter hwn oedd cydweithio â Phensiynau i sicrhau bod cynllun pensiwn newydd y Gwasanaeth Sifil 'Alpha' yn cael ei gyflwyno'n ddidrafferth i bob aelod o staff y Comisiwn yn barod ar gyfer y gyflogres ym mis Ebrill.

20.8 Er mwyn hybu gwelliant parhaus yn y system gyflogres newydd, prosesau'r gyflogres, arbenigedd technegol y gyflogres a'r gwasanaethau i gwsmeriaid, lluniwyd cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol a mesurau eraill i fesur perfformiad y gyflogres o fis i fis. Diben hyn yw dangos sut rydyn ni wedi perfformio yn ystod blwyddyn ariannol gyflawn gyntaf y system gyflogres newydd. Ar gyfer y blynyddoedd ariannol nesaf, rydyn ni'n bwriadu defnyddio'r dangosyddion perfformiad allweddol i sicrhau ein bod yn deall ystyr darparu gwasanaethau cyflogres o'r radd flaenaf, i fesur perfformiad ac i berfformio'n gyson i'r safonau uchaf.

*System ddwyieithog ar gyfer adnoddau dynol a rheoli'r gyflogres*

20.9 Ym mis Mawrth, llwyddodd y Cynulliad i wireddu uchelgais a fu ganddo ers tro i ddarparu'r system adnoddau dynol/y gyflogres, sef FiYw, yn ddwyieithog i staff y Comisiwn.

20.10 Ers lansio'r system ym mis Mawrth 2014, mae'r tîm Adnoddau Dynol wedi bod yn gweithio gyda Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi'r Cynulliad a'n cyflenwr allanol, i ddarparu system wirioneddol ddwyieithog sy'n caniatáu i'r staff weithio yn eu dewis iaith. Mae FiYw yn canfod iaith y porwr rhyngrwyd ac yn arddangos holl dudalennau FiYw yn yr iaith honno (Cymraeg neu Saesneg). Yn ôl yr hyn a ddeallwn, dyma'r tro cyntaf i hyn gael ei wneud.

## 21.0 Cydraddoldeb a hygyrchedd

*Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall*

21.1 Mae'r Cynulliad, unwaith eto, ar restr Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall, yn bedwerydd o blith sefydliadau LHD-gyfeillgar gorau'r DU. Y Cynulliad yw cyflogwr gorau'r sector cyhoeddus yng Nghymru am yr ail flwyddyn yn olynol. Cafodd y llwyddiant hwn ei gydnabod mewn nifer o gyhoeddiadau cenedlaethol, gan gynnwys cylchgrawn HR Manager a'r Equal Opportunities Review. Soniwyd amdano hefyd yn y Guardian, yr Independent, y Times a'r Western Mail.

*Hyfforddiant cydraddoldeb i Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth*

21.2 Lansiwyd hyfforddiant cydraddoldeb ar-lein ar gyfer yr Aelodau a'u staff. Mae'r hyfforddiant yn cwmpasu amryw o faterion cydraddoldeb, gan gynnwys cefnogi staff, darparu gwasanaethau, recriwtio a rhagfarn anfwriadol. I gyd-fynd â'r hyfforddiant, ail-lansiwyd ein taflenni ffeithiau cydraddoldeb ar gyfer yr Aelodau.

*Cyfeillion Dementia*

21.3 Ar ôl treialu sesiwn hyfforddiant, mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i weithio gyda'r Gymdeithas Alzheimer i fod yn sefydliad sy'n gyfeillgar i bobl sydd â dementia. Gwnaed yr ymrwymiad gan Sandy Mewis, Comisiynydd y Cynulliad sydd â chyfrifoldeb am faterion cydraddoldeb, mewn digwyddiad gan y Gymdeithas Alzheimer yn y Pierhead. Bydd gwirfoddolwyr yn cael rhagor o hyfforddiant fel y gallan nhw hyfforddi rhagor o staff mewnol.

*Chwarae Teg*

21.4 Mae Gwasanaeth Pwyllgorau'r Cynulliad yn gweithio gyda Chwarae Teg i edrych ar yr amrywiaeth o dystion mewn pwyllgorau, ac i hyfforddi amryw fenywod i roi tystiolaeth.

*Asesu'r effaith ar gydraddoldeb*

21.5 Mae'r Bwrdd Rheoli wedi cymeradwyo dull y Cynulliad o asesu'r effaith ar gydraddoldeb. Drwy gyfrwng hyfforddiant byddwn yn gallu sicrhau ein bod yn ymgorffori'r broses hon ym mhopeth a wnawn.

*Gweithgareddau'r rhwydweithiau staff*

21.6 Cynhaliodd y rhwydwaith BME ar gyfer staff weithdy datblygu i lywio ei gweithgareddau datblygu a rhwydweithio. Hefyd, cynhaliwyd digwyddiad 'hyfforddi'r hyfforddwr' llwyddiannus ar gyfer 11 sefydliad allanol i helpu i greu llysgenhadon swyddi a phencampwyr cymunedol i hyrwyddo'r Cynulliad Cenedlaethol fel cyflogwr o fri.

21.7 Mae Cydgysylltydd y Cynllun Gweithredu BME wedi parhau i ymgysylltu'n allanol ac i gefnogi nifer o fentrau allanol i hybu cysylltiadau BME, sy'n cynnwys y Grŵp Llywio Mis Hanes Pobl Dduon, grŵp BME Ymddiriedolaeth Tywysog Cymru, a Chymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Gwasanaethau Brys a'r Cyhoedd, Caerdydd

21.8 Cododd OUT-NAW, ein rhwydwaith staff LGBT, y faner enfys a chynhaliodd sesiynau codi ymwybyddiaeth ar gyfer Mis Hanes LGBT ym mis Chwefror.

21.9 Gweithiodd ein holl rwydweithiau gyda'i gilydd i gasglu rhoddion ar gyfer Banc Bwyd Caerdydd ar gyfer y Pasg.

# D. Y wybodaeth ddiweddaraf am Faterion Ariannol

## 22.0 Blwyddyn Ariannol 2014-15

22.1 Ein targedau ariannol corfforaethol ar gyfer y flwyddyn oedd:

- sefyllfa o danwariant ar ddiwedd y flwyddyn o lai nag 1% o'r gyllideb weithredol (llai na £505,000);
- £500,000 o arbedion gwerth am arian; a
- pherfformiad lle telir yn brydlon o fewn 10 diwrnod.

22.2 Mae'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn yn dal i gael ei chwblhau wrth i ni baratoi'r cyfrifon terfynol ar gyfer yr archwiliad. Fodd bynnag, rydyn ni'n disgwyl y byddwn wedi tanwario llai na £500,000 (0.01% o gyfanswm y gyllideb).

22.3 Drwy'r rhaglen Gwerth am Arian llwyddwyd i arbed £584,000 yn 2014-15, gan ragori ar ein targed. Daeth £61,000 o'r cyfanswm hwn drwy arbed arian ar gontractau caffael, a disgwylir y gallwn arbed £495,000 arall yn y tair blynedd ariannol nesaf.

22.4 Hefyd, gofynnwyd i'r gwasanaethau roi mwy o wybodaeth am yr arbedion y maen nhw wedi'u sicrhau yn ystod y flwyddyn drwy fod yn fwy effeithlon. Er nad yw'r rhain oll yn rhyddhau arian parod, maen nhw'n dangos yn glir bod newidiadau'n cael eu gwneud i wella'r broses o ddarparu gwasanaethau. Un enghraifft o hyn yw'r defnydd o gyfieithu peirianyddol sydd wedi sicrhau 20% o effeithlonrwydd ar y cyfraddau cyfieithu. Cynhaliwyd y prosiect mewn partneriaeth â Microsoft, ac roedd hynny o fudd i'r ddau sefydliad. Mae'r prosiect wedi rhyddhau adnoddau staff mewnol i'w defnyddio mewn meysydd blaenoriaeth eraill.

## 23.0 Blwyddyn Ariannol 2015-16 a thu hwnt

23.1 Cymeradwywyd dyraniadau terfynol cyllideb 2015-16 ym mis Mawrth, a dosbarthwyd y llythyrau dirprwyo ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

23.2 Mae cyllideb ychwanegol o £500,000 yn benodol ar gyfer gwariant afreolaidd sy'n gysylltiedig â'r etholiad.

23.3 Yn ystod y flwyddyn nesaf, bydd y tîm Cyllid yn parhau i weithio gyda rheolwyr cyllidebau i nodi a datblygu cyfleoedd i sicrhau arbedion drwy fod yn fwy effeithlon. Bydd hefyd yn symud y ffocws ymhellach o sicrhau arbedion gwerth am arian o'r staff at arbedion mewn contractau a thrwy wella gwasanaethau.

23.4 Erbyn hyn, cymeradwywyd y strategaeth ar gyfer cyllideb 2016-17, ac mae gwaith wedi dechrau ar ddogfen cyllideb 2016-17. Bydd y ffocws ar:

- gefnogi'r rhaglen gynyddol o waith deddfwriaethol;
- darparu rhaglen newydd ac estynedig o ddatblygiad proffesiynol ar gyfer yr Aelodau, gan gynnwys Aelodau newydd ac Aelodau Cynulliad sy'n dychwelyd, yn seiliedig ar werthusiad o ganlyniadau DPP hyd yma;
- cefnogi newid cyfansoddiadol, y disgwylir iddyn nhw fod yn arwyddocaol yn sgil Deddf Cymru 2014 a chyhoeddiadau Dydd Gŵyl Dewi 2015;
- parhau â gwaith ymgysylltu a hyrwyddo'r Comisiwn, gyda phwyslais ychwanegol i adlewyrchu'r datblygiadau cyfansoddiadol newydd;
- Gwerth am Arian - mae gan y Comisiwn record gref o ran cyflawni gwerth am arian law yn llaw â'i nodau a'i flaenoriaethau strategol, a byddwn yn awyddus i adeiladu ar hyn o ddechrau'r Pumed Cynulliad ymlaen;
- datblygu gwasanaeth technolegol – parhau i newid a gwella gwasanaethau'r Cynulliad a'r ffyrdd rydyn ni'n cefnogi Aelodau'r Cynulliad i gyflawni eu rolau.


# E. Rhyddid Gwybodaeth

## 24.0 Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2015

24.1 Mae rhestr o'r wybodaeth a ddatgelwyd ers yr adroddiad diwethaf o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i'w gweld yn Atodiad E. Mae wedi cael ei chategoreiddio i ddangos pwnc y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae'r rhestr hefyd yn cynnwys manylion am y wybodaeth a gafodd ei dal yn ôl o ganlyniad i eithriadau Rhyddid Gwybodaeth, y rhai sydd wedi cael eu rhyddhau yn rhannol a'r rhai lle nad oes unrhyw wybodaeth yn cael ei chadw.

24.2 Mae'r siart isod yn dangos yr 19 cais yn ôl categori. Ni chymhwyswyd unrhyw eithriadau o ran amser a chostau.

**Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn ôl categori (rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2015)**



# F. Atodiadau

## Atodiad A - Ymgysylltu â Phobl Ifanc: allgymorth

Ers mis Ionawr rydyn ni wedi cysylltu â'r sefydliadau canlynol i'w cynnwys yn ein gweithgaredd ymgysylltu â phobl ifanc. Gall y math hwn o weithgaredd gynnwys ymweliadau â'r Cynulliad, ymweliadau oddi ar y safle neu gall fod yn gyfrwng i rannu gwybodaeth:

| Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful | Pobl yn Gyntaf Cymru | Cyswllt Conwy ar gyfer Anableddau Dysgu |
|---|---|---|
| Cyngor ar Bopeth | Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe | Chwarae Teg |
| Tîm Cefnogi Pobl Ifanc Ethnig | Hafal | Wrexham Foyer |
| Dynamic, Wrecsam | BAWSO | Cymorth i Fenywod Cymru |
| Prifysgol Glyndŵr | Age Connects Gogledd Ddwyrain Cymru | GISDA |
| Ymddiriedolaeth St Giles | Digartref Ynys Môn | ACE Caerdydd |
| Ymddiriedolaeth Datblygu 3G | Hyfforddiant ACT – Prif Swyddfa | Fforwm Ieuenctid Ceredigion |
| Plant yng Nghymru | Partneriaeth Pobl Ifanc Conwy | Gwasanaeth Ieuenctid Conwy |
| EC2 Gwasanaeth Ieuenctid Sir Fynwy | Rhwydwaith Maethu Cymru | GwirVol |
| Pobl Ifanc LGBT Sir Benfro | Mencap Cymru | Prince's Trust – Cymru |
| Shelter Cymru | SNAP Cymru | Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru |
| Prosiect Warws Wrecsam | A4e Cymru | Afasic Cymru |
| Fforwm Ieuenctid Caerffili | Cyngor Ieuenctid Caerdydd | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Cyngor Sir Ddinbych | Tîm Cefnogi Pobl Ifanc Ethnig | Fforwm Ieuenctid Sir y Fflint |
| Pobl Ifanc LGBT Sir Benfro | Prosiect Sipsiwn a Theithwyr Monkton | Sipsiwn a Theithwyr Ysbrydoledig |

| | | |
|---|---|---|
| **Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful** | **Pobl yn Gyntaf Cymru** | **Cyswllt Conwy ar gyfer Anableddau Dysgu** |
| Cynulliad Ieuenctid Sir Benfro | Ysgol Fferm Plas Dwbl | Fforwm Ieuenctid Torfaen |
| Clwb Ieuenctid Treuddyn | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | Prifysgol Cymru |
| Fforwm Ieuenctid Bro Morgannwg | Cyngor Derbyn Gofal Wrecsam | Prosiect Warws Wrecsam |
| Fforwm Ieuenctid Cymunedol Rhondda Cynon Taf | RAY Ceredigion | YMCA Abertawe |

**Atodiad B - Prif ddigwyddiadau eraill a gynhaliwyd rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2015**

Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau o bwys yn ystod y chwarter a ddaeth i ben ddiwedd mis Mawrth 2015, a oedd yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| **Y Gadair Ddu** | Fel rhan o'n rhaglen bedair blynedd i nodi canmlwyddiant ers dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf, fe wnaethon ni drefnu bod replica 3D o'r Gadair Ddu yn cael ei arddangos yn y Senedd.<br>Cafodd y gadair wreiddiol ei chreu gan y crefftwr Eugene Vanfleteren o Wlad Belg ac fe'i henillwyd gan Hedd Wyn yn Eisteddfod Genedlaethol 1917, ym Mhenbedw, ac yntau, erbyn hynny wedi'i ladd yn y rhyfel. Daeth y Gadair yn symbol o'r holl gadeiriau a adawyd yn wag yng nghartrefi Cymru yn sgil y miloedd a gollodd eu bywydau.<br>Cafodd y replica o'r Gadair Ddu ei greu gan Brifysgol Caerdydd, drwy ddefnyddio technoleg argraffu 3D arloesol, ac mae'r replica yn union yr un peth â'r gadair ei hun, hyd yn oed y degau o flynyddoedd o draul sydd arni. |
| **Dydd Gŵyl Dewi** | I nodi Dydd Gŵyl Dewi 2015 fe wnaethon ni gynnal diwrnod i'r teulu yn y Senedd unwaith eto. Daeth dros 500 o westeion i fwynhau adloniant cerddorol gan blant ysgol lleol, ac roedd cyfle hefyd i wneud gweithgareddau celf a chrefft. Hefyd, cafodd pob un o'r gwesteion ar y diwrnod deisen gri am ddim o gaffi'r Senedd. |
| **TEDx Caerdydd/lansio ap Cynulliad Cenedlaethol Cymru** | Estynnodd y Senedd groeso i westeion o TEDx Caerdydd yn ystod derbyniad a gynhaliwyd yn ystod yr egwyl. Defnyddiwyd y derbyniad fel cyfle i lansio a chasglu adborth ynghylch ap newydd y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer dyfeisiau symudol. Roedd dros 200 o westeion yn bresennol ac fe gawson nhw gyfle i wneud sylwadau ac i awgrymu newidiadau – caiff yr holl adborth a gesglir ei ystyried wrth ddatblygu'r ap yn y dyfodol. |
| **#SeneddWrecsam** | Cynllun peilot oedd #SeneddWrexham – ei bwrpas oedd mynd â'r Cynulliad ar daith, a mynd â rhai o weithgareddau'r Cynulliad at galon cymunedau Cymru – Wrecsam yn yr achos hwn – i drafod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ei Aelodau a'u gwaith.<br>Fel rhan o'r digwyddiad gosododd Cynulliad ei stondin mewn |

| | |
|---|---|
| | nifer o leoliadau ar draws Wrecsam. Yn ogystal â'r Gweithdy Ymgysylltu â Phobl Ifanc uchod, cynhaliwyd nifer o weithdai Allgymorth ac Ymgysylltu.<br>Hefyd, cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau i godi ymwybyddiaeth am y mentrau Pleidleisio@16, Menywod yn Gwneud Gwahaniaeth a Diffyg Democrataidd sy'n cael eu harwain gan y Llywydd.<br>Yn ystod yr wythnos siaradwyd â bron 2000 o bobl, a chafwyd cryn sylw yn y wasg leol. |
| **Sesiynau ar gyfer staff Canolfan Llywodraethiant Cymru** | Rydyn ni wedi darparu pedair sesiwn i staff ar y cyd â Chanolfan Llywodraethiant Cymru. Yn ystod y sesiynau hyn cafodd y staff wybodaeth arbenigol am:<br>- y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru;<br>- safbwyntiau sefydliadau'r gymdeithas sifil a'u profiad o ymgysylltu â pholisi;<br>- Yr Etholiad Cyffredinol; a'r<br>- Undeb Ewropeaidd. |

## Atodiad C – y cyfryngau cymdeithasol mewn ffigurau

Dyma rai o uchafbwyntiau'r cyfnod:

| Llwyfan | Disgrifiad |
|---|---|
| YouTube | Mae bron 70,000 wedi edrych ar ein fideos ar YouTube ers 2009, ac roedd 10,000 o'r rheini rhwng mis Rhagfyr 2014 a mis Mai 2015. |
| Twitter corfforaethol | Erbyn hyn mae 27,000 o ddilynwyr ar gyfrifon corfforaethol y Cynulliad (y cyfrifon Cymraeg a Saesneg cyfun). |
| #SeneddWrecsam | Bu wythnos allgymorth ac ymgysylltu'r Cynulliad yn Wrecsam rhwng 21 a 28 Mawrth yn brysur iawn o ran y cyfryngau cymdeithasol; dyma'r nifer fwyaf erioed mewn unrhyw ddigwyddiad Cynulliad.<br>Ystadegau allweddol:<br>- Yn ystod yr wythnos honno, bu cynnydd o 232 yn nifer y dilynwyr Twitter.<br>- Cynyddodd y nifer sy'n edrych ar ein fideos YouTube 99% ym mis Mawrth o gymharu â mis Chwefror. |
| TripAdvisor | Mae'r tîm Cyswllt Cyntaf wedi cymryd cyfrifoldeb am dudalen TripAdvisor y Cynulliad, a'r nod yw defnyddio'r platfform i gael adborth gan y cyhoedd, a hefyd i hysbysebu'r hyn sy'n digwydd ar yr ystâd. |
| @SeneddSiambr | Erbyn hyn mae dros 1000 o bobl yn dilyn cyfrif @SeneddSiambr ar Twitter. |
| Blog y Gwasanaeth Ymchwil | Ym mis Chwefror darllenwyd ein blog ar Pigion gan y nifer fwyaf erioed (5,777 o gyfuno'r blogiau Cymraeg a Saesneg) |
| Pinterest | Rydyn ni wedi dechrau defnyddio Pinterest i gasglu cynnwys ar-lein am wahanol ddigwyddiadau. Mae Pinterest yn wych i roi gwybod i'r cyhoedd mewn ffordd atyniadol am y gwaith rydyn ni'n ei wneud. |

**Atodiad D - Digwyddiadau ac ymweliadau rhyngwladol, gan gynnwys ymweliadau diplomyddol**

**Hyd at fis Ebrill 2015**

| Dyddiad | Manylion |
|---|---|
| 2-3 Chwefror 2015 | *Ymweliad gan Senedd Fiji*<br><br>Croesawodd y Cynulliad ddirprwyaeth fechan o Senedd Fiji fel rhan o raglen a gydgysylltwyd gan Raglen Datblygu'r Cenhedloedd Unedig mewn partneriaeth â Chymdeithas Seneddol y Gymanwlad. Arweiniwyd y ddirprwyaeth gan **Jiko Luveni** – llefarydd benywaidd cyntaf Fiji.<br><br>Roedd gan y ddirprwyaeth ddiddordeb mewn dysgu mwy am ymgyrch #POWiPL y Llywydd, Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau, yn ogystal â gwaith y Bwrdd Taliadau Annibynnol a Chymorth Busnes yr Aelodau. Roedd y ddirprwyaeth hefyd yn awyddus i ddatblygu ar yr hyfforddiant technegol TGCh a roddwyd eisoes gan Dave Tosh a Bedwyr Jones yn Fiji. |
| 4-6 Chwefror 2015 | *Cynhadledd Pwyllgor Seneddwragedd y Gymanwlad BIMR, Gibraltar*<br><br>Cynhaliwyd Ail **Gynhadledd Seneddwragedd y Gymanwlad**, Rhanbarth Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir (BIMR) Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad. Cynhaliwyd y gynhadledd gan Gangen Gibraltar a chynrychiolwyd CPA Cymru gan Gadeirydd y Gangen ac Aelod o Bwyllgor Llywio Seneddwragedd y Gymanwlad BIMR **Joyce Watson AC**, ynghyd â **Jenny Rathbone AC** ac **Ann Jones AC.** Thema'r gynhadledd oedd "*Rhoi Terfyn ar Drais yn erbyn Menywod"* a chafwyd safbwyntiau diddorol am yr heriau o fynd i'r afael â'r mater pwysig hwn mewn gwledydd a thiriogaethau bychain. |
| 22-24 Chwefror 2015 | Cynhaliwyd 50fed Sesiwn o Gyfarfod Llawn **Cynulliad Seneddol Prydain ac Iwerddon** (BIPA) yn Leinster House, Dulyn. Roedd y Cynulliad yn dathlu chwarter canrif ers ei sefydlu.<br>Roedd **David Melding AC, y Dirprwy Lywydd, Joyce Watson AC, William Powell AC, Darren Millar AC,** a **Lindsay Whittle AC** yn |

| | |
|---|---|
| | cynrychioli Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Canolbwyntiodd y Cyfarfod Llawn ar y thema '*Chwaraeon o ran hyrwyddo datblygiad diwylliannol a chymunedol*' |
| 25 Chwefror 2015 | Cyfarfu'r Llywydd â **Mr Naoto Kan, cyn Brif Weinidog Japan.** Bu Mr Kan yn annerch cynulleidfa mewn digwyddiad yn y Pierhead, fel rhan o raglen o ymweliadau mewn partneriaeth â'r Groes Werdd Ryngwladol. |
| 26 Chwefror | **Bu Ei Ardderchogrwydd Andris Teikmanis**, **Llysgennad Latfia i'r DU,** yn ymweld â'r Cynulliad i gyfarfod Cadeiryddion Pwyllgorau i drafod blaenoriaethau Latfia yn ystod ei Llywyddiaeth o Gyngor yr UE. |
| 9-10 Mawrth 2015 | Roedd Esther Jones a James Jones o Ysgol Dyffryn Aman yn cynrychioli Cangen Cymru o'r CPA yn swyddogol ar **Ddiwrnod y Gymanwlad** yn San Steffan. Mae blog am eu profiad wedi'i bostio ar wefan *Dy Gynulliad* a gellir ei weld *yma*<br>Dychwelodd Esther a James o San Steffan i'r Senedd drannoeth i fod yn siaradwyr gwadd yn nerbyniad Diwrnod y Gymanwlad y Cynulliad. |
| 20 Mawrth 2015 | Anerchodd y **Dirprwy Lywydd** ddirprwyaeth o'r **Coleg Brenhinol Astudiaethau Amddiffyn**, a oedd ar eu hymweliad blynyddol â Chymru. |
| 13-16 Ebrill 2015 | Arweiniodd y **Dirprwy Lywydd,** ddirprwyaeth, ynghyd â **Chomisiynwyr y Cynulliad, Sandy Mewies AC, Rhodri Glyn Thomas AC** a **Peter Black AC**, i **Bosnia Hersegovina.** Roedd yr ymweliad yn rhan o'r rhaglen addysg "*Gwersi o Srebrenica*" i nodi 20 mlynedd  ers yr hil-laddiad yn Srebrenica. |
| 24 Ebrill 2015 | Croesawodd **Llywyddion** a **Phrif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, Claire Clancy,  Ei Uchelder Brenhinol Dug Caerloyw** i'r Cynulliad. Roedd yr ymweliad yn canolbwyntio ar ddiddordeb Dug Caerloyw yn nodweddion pensaernïol ac amgylcheddol y Senedd. |
| | **Y Llywydd yn Cadeirio Gweithgor CALRE 2015 ar Gydraddoldeb Rhywiol** |

| | |
|---|---|
| | Mae paratoadau ar y gweill ar gyfer Gweithgor CALRE (Cynhadledd Cynulliadau Deddfwriaethol Rhanbarthol Ewrop) eleni ar Gydraddoldeb Rhywiol a groesewir i'r Senedd gan y Llywydd. Hyd yma, mae Llywyddion (Llefarwyr) Seneddau Rhanbarthol sy'n cynrychioli'r **Eidal, Ffindir, Sbaen, Portiwgal** a **Gwlad Belg** wedi cytuno i gymryd rhan yn y Gweithgor. Canolbwynt y gweithgor fydd **seminar ar 26 Mehefin** a gynhelir gan y Llywydd yn y Senedd. |

***Ymweliadau diplomyddol***

Croesawodd y Llywyddion yr ymweliadau diplomyddol canlynol â'r Cynulliad:

- 17 Mawrth 2015 – Ei Hardderchogrwydd Ms Sylvie Bermann, **Llysgennad Ffrainc** i'r DU
- 27 Ebrill 2015 – Ei Ardderchogrwydd Mr Patrick Engelberg, Llysgennad **Lwcsembwrg** i'r DU

**Atodiad E – Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth**

Ionawr – Ebrill 2015

Daeth 19 cais am wybodaeth i law rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2015.  Mae'r categorïau yn ymwneud â natur y cais.

1. **Gwybodaeth a ryddhawyd yn dilyn ceisiadau rhyddid gwybodaeth**

Comisiwn y Cynulliad

- Costau sy'n gysylltiedig â newid enw parth.
- Siop y Senedd siop – gwerthu wisgi o Gymru.
- Penderfyniad ar y ffilm James Bond.
- Polisi ffilmio'r Senedd.
- Dogfen/polisi'r strategaeth sgiliau dwyieithog.  **Bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei chyhoeddi ar dudalen y Pwyllgor ar y we yn y dyfodol agos.  Dibynnwyd ar adran 22 (Gwybodaeth y bwriadwyd ei chyhoeddi yn y dyfodol).**

Aelodau'r cynulliad a'r Comisiwn

- Gwybodaeth am y teithiau awyr rhwng Caerdydd ac Ynys Môn.

Aelodau'r Cynulliad

- Prydau bwyd a hawliwyd gan Aelodau'r Cynulliad **Gwybodaeth a gyhoeddwyd ar y wefan. Dibynnwyd ar adran 21 (Gwybodaeth sydd ar gael yn rhesymol i'r ceisydd drwy ddulliau eraill).**

- Hysbysebion a hawliwyd gan Aelodau'r Cynulliad **Gwybodaeth a gyhoeddwyd ar y wefan. Dibynnwyd ar adran 21 (Gwybodaeth sydd ar gael yn rhesymol i'r ceisydd drwy ddulliau eraill).**

- Swydd Ddisgrifiadau Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad.

Busnes y Cynulliad

- Cyfraniadau a wnaed yn Gymraeg ac yn Saesneg yn ystod trafodion y Cynulliad. **Gwybodaeth a gyhoeddwyd ar y wefan. Dibynnwyd ar adran 21 (Gwybodaeth sydd ar gael yn rhesymol i'r ceisydd drwy ddulliau eraill).**



**2. Rhyddhau gwybodaeth yn rhannol ond rhywfaint o wybodaeth heb ei chadw neu wedi'i dal yn ôl**

Comisiwn y Cynulliad

- Heddlu arfog ar ystâd y Cynulliad. **Gwybodaeth a gyhoeddwyd ar y wefan nas cadwyd. Dibynnwyd ar adran 21 (Gwybodaeth sydd ar gael yn rhesymol i'r ceisydd drwy ddulliau eraill).**

Aelodau’r Cynulliad

- Copïau o ddau lythyr ymddiswyddo blaenorol. **Rhyddhawyd ond dibynnwyd hefyd ar adran 40 (Data Personol).**

Ystadau a Chyfleusterau

- Profion diogelwch rhag mellt, ac asesu risg. **Rhyddhawyd ond dibynnwyd hefyd ar adran 40 (Data Personol).**

<u>Comisiwn y Cynulliad a'r Aelodau</u>

- Gwybodaeth am bensiwn staff yr Aelodau a'r Comisiwn. **Gwybodaeth a gyhoeddwyd ar y wefan nas cadwyd. Dibynnwyd ar adran 21 (Gwybodaeth sydd ar gael yn rhesymol i'r ceisydd drwy ddulliau eraill).**

## 3. Dim gwybodaeth yn cael ei chadw



<u>Busnes y Cynulliad</u>

- Ymgysylltu a buddiant gyda Gweriniaeth Ddemocrataidd Pobl Korea. **Dim gwybodaeth yn cael ei chadw.**

<u>Comisiwn y Cynulliad</u>

- Gohebiaeth rhwng y Llywydd a'r Tywysog Charles. **Dim gwybodaeth yn cael ei chadw.**

<u>Aelodau'r Cynulliad</u>

- Oedran, ethnigrwydd, a'r rhai a gofrestrwyd yn anabl. **Dim gwybodaeth yn cael ei chadw.**
- Manylion am gontractau sero oriau. **Dim gwybodaeth yn cael ei chadw.**
- Taldra, pwysau ac oriau ymarfer. **Dim gwybodaeth yn cael ei chadw.**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 5

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon